

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth

2019-20

## CYLCH GORCHWYL

### Cefndir

Yn ei gynllun gweithredol ar gyfer 2019-20, ymrwymodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i raglen o adolygiadau cenedlaethol a oedd yn cynnwys gwasanaethau mamolaeth. Roedd ein penderfyniad i gynnal yr adolygiad hwn yn seiliedig ar nifer o bryderon am y pwysau a wynebwr gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru, gan gynnwys y pryderon a nodwyd yn ystod arolygiad AGIC o wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ym mis Hydref 2018<sup>1</sup>.

Cafodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwraedd eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018 i gynnal adolygiad annibynnol o'r gofal a roddwyd i gleifion gan hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<sup>2</sup>. Gwnaed hynny yn dilyn pryderon difrifol a ddaeth i'r amlwg yn gyntaf o ganlyniad i achosion o dangofnodi digwyddiadau difrifol mewn gwasanaethau mamolaeth. Nododd yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 nifer o bryderon sylweddol am lefelau staffio, prosesau a diwylliant sylfaenol y gwasanaethau mamolaeth, sydd wedi cyfaddawdu gofal. Arweiniodd hyn at osod gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd o dan fesurau arbennig ym mis Ebrill 2019.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ac oherwydd difrifoldeb y sefyllfa, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, ofyniad ar fyrddau iechyd i ystyried eu gwasanaethau eu hunain yng nghyd-destun argymhellion yr adroddiad ac i roi sicrwydd uniongyrchol mewn perthynas â hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phenaethiaid gwasanaethau bydwreigiaeth, cyfarwyddwyr clinigol a phwyllgorau cyswllt gwasanaethau

<sup>1</sup> <https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-06/210119royalglamorganmaternityen.pdf>

<sup>2</sup> Ers 1 Ebrill 2019, daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn ymgorffori ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'r bwrdd iechyd.

mamolaeth a arweinir gan ddefnyddwyr er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn yn llywio'r camau a gymerir yng Nghymru wrth lunio gweledigaeth pum mlynedd newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth<sup>3</sup>.

Ym mis Ebrill 2017, o dan fodel newydd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol, ysgwyddodd y byrddau iechyd gyfrifoldeb am oruchwyllo bydwagedd yng Nghymru (gwaith a wnaed yn flaenorol gan yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer Bydwagedd). Ers y newid hwn, ni chafwyd trosolwg cenedlaethol o'r broses o oruchwyllo bydwagedd yng Nghymru. Felly, mae'n amser cynnal adolygiad annibynnol o wasanaethau mamolaeth.

Bydd adolygiad cenedlaethol AGIC yn rhoi darlun cenedlaethol o ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth y GIG ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i wella gwasanaethau i fenywod a'u teuluoedd.

### Cwmpas a methodoleg

Bydd ein hadolygiad cenedlaethol yn ystyried y canlynol:

- Profiad menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd.

Bydd hefyd yn ystyried i ba raddau y mae byrddau iechyd ledled Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol
- Deall cryfderau eu gwasanaethau mamolaeth a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r daith o feichiogrwydd cynnar i'r enedigaeth a'r cyfnod wedi hynny yn adeg bwysig i'r fam a'r baban, ac yn aml yn gymhleth. Byddwn yn gwrandao ar brofiadau menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd er mwyn casglu eu barn am y gwasanaethau a gawsant cyn yr enedigaeth a'r cymorth a roddwyd iddynt wedi hynny, p'un a oedd y beichiogrwydd a'r enedigaeth yn risg isel neu'n risg uchel. Bydd yr adolygiad cenedlaethol yn casglu tystiolaeth mewn nifer o ffyrdd dros y flwyddyn nesaf.

Bydd Cam I (Mehfin-Rhagfyr 2019) yn ystyried y dystiolaeth ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg drwy raglen o arolygiadau dirybudd o unedau mamolaeth ledled Cymru. Bydd yn canolbwyntio ar y gofal a roddir mewn unedau mamolaeth<sup>4</sup> hyd nes y caiff y fam a'r baban eu rhyddhau o'r ysbyty, yn ogystal â rhai agweddau ar y gofal cynenedigol a roddir yn y gymuned.

Bydd y tîm arolygu yn cynnwys:

---

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-gofal-mamolaeth-yng-nghymru-gweledigaeth-5-mlynedd-ar-gyfer-y>

<sup>4</sup> Unedau cartref oddi cartref, unedau annibynnol dan arweiniad bydwagedd, unedau dan arweiniad bydwagedd ochr yn ochr ac unedau obstetreg

- O leiaf un o arolygwyr AGIC
- O leiaf un o adolygydd cymheiriaid bydwragedd
- Un adolygydd cymheiriaid obstetryddion
- Un adolygydd lleyg.

Bydd AGIC yn teilwra ei adolygiad o'r gofal a roddir mewn unedau dan arweiniad bydwragedd annibynnol (unedau cartref oddi cartref) nad ydynt yn cael eu staffio'n barhaol.

Yn ystod hydref 2019, bydd AGIC yn lansio arolwg cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth, a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan y Cyngor Iechyd Cymuned. Bydd yr arolwg yn casglu adborth gan ystod eang o fenywod, eu partneriaid a'u teuluoedd ledled Cymru am eu profiadau o wasanaethau mamolaeth. Bydd yr arolwg yn ymdrin â phrofiadau yn ystod beichiogrwydd, yr enedigaeth (boed hynny gartref neu mewn uned mamolaeth) ac ar ôl yr enedigaeth.

Caiff yr arolwg ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff amrywiaeth o adnoddau a sianeli cyfathrebu eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y gall pobl gymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys grwpiau o bobl na chlywir ganddynt yn aml.

Caiff arolwg cenedlaethol ar wahân ei lansio er mwyn casglu safbwyntiau staff amlddisgyblaethol sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth. Caiff hwn hefyd ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i rannu â phob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn ei ddosbarthu i'r staff.

Bydd Cam II (Ionawr-Mawrth 2020) yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod Cam I. Bydd hyn yn cynnwys cyfweiliadau â phersonél allweddol ym mhob bwrdd iechyd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth a'r broses o'u llywodraethu. Byddwn yn ceisio cwrdd wyneb yn wyneb â menywod er mwyn deall eu profiadau yn well.

### Gwaith gan sefydliadau eraill

Fel rhan o'r gwaith o bennu cwmpas yr adolygiad, byddwn yn nodi sefydliadau eraill sydd wedi cynnal gwaith mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny, ac yn cysylltu â nhw.

Bydd AGIC yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Cyngorau Iechyd Cymuned a sefydliadau'r trydydd sector, er mwyn ymgysylltu â menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd i ddeall eu profiadau o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru.

Bydd AGIC yn cysylltu â'r rhanddeiliaid hyn ar adegau allweddol yn ystod yr adolygiad er mwyn rhannu cynlluniau a sicrhau y caiff unrhyw gyfleoedd i gydweithio eu hystyried er mwyn osgoi achosion diangen o ddyblygu ymdrech a rhannu canfyddiadau'r gwaith maes.

### Cynllunio

Bydd AGIC yn ffurfio grŵp cyfeirio rhanddeiliaid mamolaeth er mwyn llywio'r adolygiad. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid [ar gael yma](#).

Bydd AGIC hefyd yn ffurfio panel cynghori a fydd yn cynnwys tîm bach o obstetryddion, anesthetegwyr a bydwagedd a fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth a chynghor ychwanegol i fwrdd prosiect mewnol AGIC ar y gwaith o gynnal yr adolygiad o ddydd i ddydd. Mae'r Cylch Gorchwyl, pan gaiff ei gadarnhau, [ar gael yma](#).

Er mwyn llywio'r adolygiad, mae AGIC wedi casglu gwybodaeth am wasanaethau mamolaeth ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Amrywiaeth o wybodaeth, data ac archwiliadau cenedlaethol mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am bryderon a ddelir gan AGIC a Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth a roddwyd gan bob bwrdd iechyd i Lywodraeth Cymru am ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth, yn dilyn adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd ar wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.
- Gwybodaeth am wasanaethau mamolaeth a hunanasesiadau gan bob bwrdd iechyd ar gais AGIC.

## Amserlen

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys amserlen amcangyfrifedig ar gyfer yr adolygiad.

Tasg	Amseru
Ymchwil a gwaith cwmpasu	Mai 2019 - Mehefin 2019
Hunanasesiad Byrddau Iechyd Lleol	Mehefin 2019
Cynllunio'r gwaith maes	Ionawr 2019 - Mehefin 2019
Cam I y Gwaith Maes	Mehefin 2019 - Rhagfyr 2019
Cam II y Gwaith Maes	Ionawr 2020 - Mawrth 2020
Cyhoeddi'r adroddiad a gwaith ymgysylltu	Haf 2020

## Dadansoddi ac adrodd

Caiff adroddiad ei gyhoeddi yn dilyn pob arolygiad o wasanaethau mamolaeth rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2019. Yn unol â phrosesau arolygu AGIC, caiff unrhyw bryderon brys eu codi gyda'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru ar unwaith<sup>5</sup>.

Os byddwn yn nodi meysydd i'w gwella, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gwblhau cynllun gwella sy'n disgrifio'r ffordd y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r

<sup>5</sup> Mae rhagor o fanylion am y ffordd y mae AGIC yn arolygu'r GIG ar gael ar ein gwefan [https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-05/170328inspectnhscy\\_0.pdf](https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-05/170328inspectnhscy_0.pdf)

canfyddiadau. Caiff pob adroddiad arolygu ei gyhoeddi ar wefan AGIC dri mis ar ôl dyddiad yr arolygiad. Caiff byrddau iechyd adroddiad arolygu drafft er mwyn cadarnhau ei fod yn gywir cyn ei gyhoeddi.

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau mamolaeth yn ystod haf 2020. Bydd yr adroddiad terfynol yn nodi'r themâu allweddol a'r argymhellion a nodwyd yn dilyn ein gwaith maes. Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion er mwyn i fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru eu hystyried a'u rhoi ar waith.

### Cyhoeddi ac ymgysylltu

Caiff pob adroddiad ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu er mwyn cynyddu amlygrwydd.

Caiff tudalen we ddynodedig ar gyfer yr adolygiad o wasanaethau mamolaeth ei chreu ar [wefan AGIC](#) a fydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau allweddol yr adolygiad. Byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau a sianeli cyfathrebu gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y gall pobl gymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol a gweithgareddau ymgysylltu. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol terfynol, caiff digwyddiadau ymgysylltu a dysgu dilynol eu hystyried.